cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

# Gwneud i Ddata Bywyd Gwyllt Gyfrif

Mae Cofnod wedi bod yn gwneud i ddata bywyd gwyllt gyfrif ledled Gogledd Cymru ers 2005. Ein camp ddiweddaraf ni yw cyrraedd 3 miliwn o gofnodion yn ein bas data o rywogaethau. I ddathlu hyn rydyn ni eisiau eich cyflwyno chi i 3 rhywogaeth a gofnodwyd yn ddiweddar a dweud eu stori a sut daeth y cofnodion i'n dwylo ni. Mae cyfoeth o fywyd gwyllt yn yr amgylchedd i chi ei archwilio a'i ddarganfod, felly beth am fod yn rhan o hyn a'n helpu ni i gyrraedd 4 miliwn! Fe fyddwch chi'n ychwanegu at fas data mwyaf cynhwysfawr y rhanbarth ac yn helpu i warchod byd natur gwych Gogledd Cymru.




## Pryf Copyn Poblogaidd

Mae'r **Pryf Copyn Plethu Pelen Brown** (*Nuctenea umbratica*), sydd tua maint darn dwy geiniog, yn aelod nodedig o'n ffawna brodorol. Mae'n weithredol drwy gydol y flwyddyn ac un o fwy na 650 o rywogaethau Prydeinig o bryfed cop! Er bod y pryf copyn yma'n byw ledled Prydain, mae'n greadur nosol a phur anaml mae i'w weld. Roedd Susan Loose allan yn ceisio tynnu llun draenog, creadur nosol arall, pan welodd y pryf copyn a thynnu'r llun trawiadol yma. Aeth ati i'w uwchlwytho gyda manylion ei darganfyddiad i'n gwefan ni. Mae Susan wedi nodi mwy na 400 o gofnodion ar ein System Gofnodi Ar-lein, gwefan a sefydlwyd i bobl rannu'r byd natur maen nhw'n ei weld. Wedyn rydyn ni'n sicrhau bod y data ar gael i arbenigwyr lleol, sy'n helpu i wirio bod y rhywogaethau'n gywir. Cadarnhaodd Richard Gallon, ein harbenigwr lleol ar bryfed cop, gofnod Susan ar unwaith gan ddefnyddio'r llun. Nid yw bob amser yn bosib tynnu llun o'r rhywogaeth rydych chi'n ei chofnodi ond os allwch chi, mae hynny'n help mawr. Byddwn yn cyflwyno ap cofnodion bywyd gwyllt eleni i chi anfon lluniau o fywyd gwyllt yn syth o'ch ffôn clyfar.



Pryf Copyn Plethu Pelen Brown, Ynys Môn.
Llun gan Susan Loose.

## Ffwng Prin

Mae rhai rhywogaethau, fel adar, mamaliaid a glöynnod byw, yn cael eu cofnodi'n eang. Mae rhai'n hawdd eu gweld mewn parciau, gerddi, gwarchodfeydd natur neu ar ymylon ffyrdd. Mae eraill yn anos eu hadnabod a dim ond arbenigwyr sy'n eu cofnodi fel rheol. Mae hynny'n wir am ffyngau fel grŵp.

Mae Charles Aron, un o'n harbenigwyr lleol ar ffyngau, wedi cyhoeddi llyfr ar y pwnc: 'Fungi of North West Wales'. Yn ddiweddar rhannodd Charles rai o'i gofnodion gyda ni. Un o'i ddarganfyddiadau mwyaf diddorol oedd y **ffwng Cap llaeth** o'r enw *Lactarius flavidus* (rhy brin i gael enw cyffredin). Roedd yn tyfu ger Marianglas, Ynys Môn a dyma'r unig gofnod o'r rhywogaeth yma yn ein bas data, gan brofi awgrym Charles am ei "*definite conservation value*". Yn ddiddorol, mae'r 'llaeth' sy'n dod o'r corff ffrwytho, y fadarchen neu'r caws llyffant, yn troi'n fioled yn yr aer, ac mae Charles yn disgrifio hyn fel *"quite spectacular"*.



*Lactarius flavidus* (ffwng Cap llaeth), Ynys Môn.
Llun gan Charles Aron.

Bob blwyddyn mae cyfleoedd i gael gwybod mwy mewn 'Helfeydd Ffyngau' sy'n cael eu trefnu'n arbennig. Cadwch lygad ar ein gwefan ni yn ystod yr hydref wrth i ni roi gwybod amdanynt.

## Mursen Egsotig



*Mursen Gynffonlas y Gors,* Malaysia.
Llun gan Allan Brandon.

Y trydydd cofnod rydyn ni eisiau ei rannu gyda chi ydi rhywogaeth na welwch chi mewn unrhyw lyfrau am fywyd gwyllt y DU. Roedd Elizabeth Jones o Hen Golwyn wedi synnu o ddarganfod mursen yn ei thŷ ym mis Mawrth, yn llawer cynharach na'r disgwyl yn hedfan. Anfonodd Elizabeth lun at arbenigwr Gogledd Cymru, Allan Brandon. Ar ôl dipyn o grafu pen, roedd Allan yn synnu o weld mai **Mursen Gynffonlas y Gors** (*Ischnura senegalensis*), rhywogaeth egsotig sy'n gyffredin yn Asia ac Affrica, oedd hon. Roedd yr un roedd Elizabeth wedi'i gweld wedi dod o blanhigion acwariwm, a gyflwynwyd yn ddiweddar i danc crwbanod môr dan do. Nid yw'r Fursen yn debygol o oroesi yma gan ei bod yn rhy oer, yn enwedig ym mis Mawrth. Cadarnhaodd Allan mai hwn oedd "*y cofnod cyntaf o'r rhywogaeth yng Ngogledd Cymru, ond mae pedwar arall wedi bod yn y DU hyd yma eleni!"*

## Bas data pwysig

Mae'r 3 miliwn o gofnodion yn ein bas data ni'n cynnwys bron i 19,000 o rywogaethau. Mae rhai'n gyffredin a rhai'n brin; rhai'n frodorol ac eraill ddim; mae rhai'n hawdd eu hadnabod ond eraill yn gofyn am farn arbenigwr. Rydyn ni'n croesawu pob cofnod am fywyd gwyllt, hyd yn oed y rhai sy'n gyffredin, oherwydd does wybod pryd byddant yn brin. Mae rhywogaethau newydd yn ymuno â'n bywyd gwyllt cyfarwydd ni o hyd ac mae'n bwysig ein bod ni'n cofnodi'r rhywogaethau 'ymledol' yma, oherwydd maen nhw'n gallu achosi niwed weithiau. Mae cannoedd o gofnodwyr bywyd gwyllt brwd yn anfon eu cofnodion atom ni'n rheolaidd. Er hynny, mae llawer o gofnodion sydd byth yn ein cyrraedd ni ac nid oes posib eu defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau gwell er lles bywyd gwyllt. Gyda'ch help chi fe allwn ni newid hyn.

## Ffyrdd o gymryd rhan

Mae llawer o ffyrdd i chi gymryd rhan mewn cofnodi bywyd gwyllt. Gallai dod i sesiwn BioBlitz cyhoeddus (digwyddiad cofnodi bywyd gwyllt am 24 awr), sesiynau sy'n cael eu cynnal drwy gydol yr haf, fod yn fan cychwyn da. Mae ein gwefan ni'n rhoi gwybodaeth am y rhain ac am ddigwyddiadau eraill, yn ogystal â chyrsiau a dyddiau cofnodi bywyd gwyllt arbenigol. Hefyd mae manylion am gofnodwyr neu grwpiau arbenigol lleol ar gael ar ein gwefan ni a thrwy gofrestru cewch e-gylchlythyr misol yn rhoi manylion i chi am beth sy'n digwydd yn lleol. Hefyd cewch gyflwyno cofnodion am weld bywyd gwyllt ar ein System Gofnodi Ar-lein, sy'n ei gwneud yn hawdd i chi gadw cofnod o'r bywyd gwyllt rydych chi wedi'i weld.

Mae Cofnod yn falch o ymwneud â nifer o brosiectau cofnodi bywyd gwyllt sy'n canolbwyntio ar rywogaethau penodol. Mae'r un diweddaraf yn gofyn i chi ddweud wrthym ni os ydych chi wedi gweld y Gylfinir, un o'r adar tir amaethyddol sy'n dirywio gyflymaf yng Nghymru.

Gwnewch amser os gwelwch yn dda i roi gwybod i ni pa fywyd gwyllt ydych chi wedi'i weld ac i wneud i'ch cofnodion gyfrif tuag at y miliwn nesaf.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn unrhyw rai o'r rhywogaethau sy'n cael sylw yn yr erthygl yma, mae mwy o wybodaeth ar gael o'r wefan (www.cofnod.org.uk) neu'r gwefannau sydd wedi'u rhestru isod. Hefyd os hoffech chi gael gwybod pa fywyd gwyllt sy'n byw yn eich ardal chi, defnyddiwch ein gwasanaeth mapio ar-lein am ddim, Aderyn (aderyn.lercwales.org.uk/), sy'n rhoi mynediad i chi at gyfoeth o ddata bywyd gwyllt ledled Cymru.

Cymdeithas Gweision y Neidr Prydain: www.british-dragonflies.org.uk/
Cylchlythyr Gweision y Neidr Gogledd Cymru Allan Brandon - www.cofnod.org.uk/News (chwiliwch am "Dragonfly")
Cynllun Cofnodi Pryfed Cop: srs.britishspiders.org.uk/portal.php/p/Welcome
Cymdeithas Fycolegol Prydain: www.britmycolsoc.org.uk/